Diwygiad Awst 2019

# PRIFYSGOL BANGOR
# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Dylid cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisiau newydd, adolygu polisiau a gwneud penderfyniadau strategol a gweithrediadol[1] er mwyn sicrhau y dileeir unrhyw anghydraddoldeb a gwahaniaethu neu y rhoddir sylw iddynt cyn gynted â phosib.

Mae'r rhestr wirio hon yn rhan o ddull y brifysgol o ymdrin ag asesu effaith cydraddoldeb a dylid ei defnyddio i asesu effaith y polisi ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

---

**GRWPIAU CYDRADDOLDEB:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | **Anabledd** | **Ailddynodi gender** | **Beichiogrwydd a mamolaeth** | **Yr iaith Gymraeg** |
| **Hil** | **Crefydd a chred** | **Rhyw** | **Cyfeiriadedd rhywiol** | Math o gontract |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | | | | |

Sylwer - Mae’n ymarfer da ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a math o gontract er bod y meysydd hynny dan ddeddfwriaeth wahanol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Enw neu deitl y polisi:** -

Cod Ymarfer 09: Y Polisi a'r Cod Ymarfer ar Recriwtio a Derbyniadau Myfyrwyr (Polisi Derbyniadau)

[1] Er y defnyddir y gair POLISI yn y templed hwn, dylid ei newid i STRATEGAETH/PENDERFYNIAD GWEITHREDIADOL fel bo'n briodol

| **Gwybodaeth am y Polisi:** | |
|---|---|
| Beth yw pwrpas y Polisi? | Nod Prifysgol Bangor yw rhoi profiad cadarnhaol i bawb sy'n gwneud ymholiadau ynglŷn ag astudio yn y brifysgol a/neu'n gwneud cais am le ar gwrs yn y brifysgol. Pwrpas y cod ymarfer hwn felly, yw nodi safbwynt y brifysgol ynglŷn â materion allweddol sy'n ymwneud â recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr yn y brifysgol. Mae hefyd yn disgrifio'r egwyddorion a'r prosesau a ddefnyddir gan y brifysgol wrth recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr newydd. O'r herwydd, y ddogfen hon yw'r polisi cyffredinol ar recriwtio, dethol a derbyn ym Mhrifysgol Bangor. |
| Pwy sy'n gyfrifol am y polisi? | Pennaeth Derbyniadau |
| Beth yw cysylltiad y polisi â blaenoriaethau strategol y brifysgol? | Ein cenhadaeth: "profiad cynhwysol".<br><br>Ein gwerthoedd: "amgylchedd diogel, croesawgar a chynhwysol". |
| Pa grwpiau sy'n rhanddeiliaid yn y polisi? | Timau recriwtio canolog.<br>Tîm/staff derbyn canolog.<br>Staff timau recriwtio a derbyn ysgolion/colegau. |
| A gaiff y polisi ei ddefnyddio yn yr un modd ym mhob maes yn y brifysgol? | Caiff. |
| Nodwch y grwpiau y mae'r polisi'n berthnasol iddynt. | Ymholwyr.<br>Ymgeiswyr. |

| **A roddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol? (un o ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus)** | |
|---|---|
| A allai unrhyw elfennau o'r polisi fod yn wahaniaethol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol? | Pwrpas y cod ymarfer yw sicrhau bod proses deg, dryloyw a chyson ar waith i ymholwyr ac ymgeiswyr. |
| A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal? | Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu cyfle cyfartal i bob ymgeisydd, myfyriwr ac aelod staff, waeth beth eu hoedran, anabledd, ethnigrwydd, rhyw, crefydd, cred neu gyfeiriadedd |

| | |
|---|---|
| | rhywiol. Felly dylid darllen y cod ymarfer hwn ar y cyd â pholisi cydraddoldeb y brifysgol (https://www.bangor.ac.uk/humanresources/equalitydiversity/EqualityPolicyStatement.php.en). |
| A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl? | Mae'r cod ymarfer yn dilyn canllawiau arfer da'r SPA a'i nod yw gwella gwasanaethau a phrofiad ymholwyr/ymgeiswyr. Caiff derbyniadau eu hadolygu'n gyson ac yn eu cyd-destun ac mae'r cod ymarfer yn anelu at sicrhau bod grwpiau gwarchodedig a/neu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael ystyriaeth ddyledus a/neu gefnogaeth/ arweiniad ychwanegol lle bo hynny'n briodol, e.e. myfyrwyr hŷn, ymadawyr gofal, ffoaduriaid, myfyrwyr ag anghenion cymorth ychwanegol, ymgeiswyr o gefndir dan anfantais (ardaloedd cod post POLAR), etc. |

| Monitro | |
|---|---|
| Pa ddata meintiol neu ansoddol sydd ar gael yn gefn i'r polisi? | Gellir dod o hyd i ddata meintiol yn seiliedig ar ystadegau dienw am ymgeiswyr sydd ar gadw gan Brifysgol Bangor a/neu UCAS i lywio trafodaethau/penderfyniadau os oes angen. Cefnogir y cod ymarfer gan drefn gwynion i ymholwyr/ymgeiswyr i dderbyn a rheoli unrhyw faterion ansoddol. Caiff unrhyw gwynion a'u hymdriniaeth eu hadolygu a chaiff canfyddiadau/argymhellion eu bwydo i'r grwpiau tasg perthnasol i'w gweithredu os oes angen. |

| Ymgynghori | |
|---|---|
| Pa grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio'r polisi? | Mae'r Grŵp Tasg Recriwtio a Derbyn yn gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r cod ymarfer hwn. |
| Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad? | Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o randdeiliaid allweddol (sy'n ffurfio'r Grŵp Tasg Recriwtio a Derbyn) trwy gydol y flwyddyn a chedwir cofnodion. Gall unrhyw aelod staff dynnu sylw at faterion ac awgrymu newidiadau i'r cod ymarfer yn y Grŵp Tasg Recriwtio a Derbyn. |
| Sut mae ymgynghori wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi? | Caiff materion a godir yn y Grŵp Tasg Recriwtio a Derbyn eu cynnwys mewn diweddariadau drafft ac yna cânt eu hystyried yn ffurfiol at ddiben diweddaru/diwygio'r cod ymarfer i'w gymeradwyo gan y Grŵp Tasg Recriwtio a Derbyn. |

| Gweithredu | |
|---|---|
| Sut gweithredir y polisi? | Mae'r Grŵp Tasg Recriwtio a Derbyn yn gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r cod ymarfer hwn.<br><br>Mae'r cod ymarfer ar gael ar-lein yn www.bangor.ac.uk a hefyd ar ffurf brintiedig neu fformatau eraill ar gais. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi? | Pennaeth Derbyniadau sy'n gyfrifol am reoli'r cod ymarfer. |

Diwygiad Awst 2019

| **Monitro** | |
|---|---|
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd ei nod? | Monitro ac adrodd parhaus i'r Grŵp Tasg Recriwtio a Derbyn i sicrhau effeithiolrwydd a nodi unrhyw faterion sydd angen sylw/camau gweithredu. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am fonitro’r polisi? | Y Grŵp Tasg Recriwtio a Derbyniadau |
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau na wnaiff roi grwpiau penodol dan anfantais? | Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio a rhaid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol. |
| Pryd caiff y polisi ei adolygu i ganfod a yw’n cyrraedd ei nod a’i amcanion? | Mae'r cod ymarfer hwn ar gylch adolygu blynyddol, ond caiff ei brofi bob tro y caiff ei ddefnyddio. |

| **Y goblygiadau o ran adnoddau** | |
|---|---|
| Hyfforddiant – a oes unrhyw ofynion hyfforddi'n gysylltiedig â datblygu, gweithredu neu fonitro’r polisi hwn? | Mae canllawiau arfer da'r SPA yn disgwyl bod holl staff y brifysgol yn gyfarwydd â'r cod ymarfer.<br>Dylai'r rhai sy'n newydd i'r maes recriwtio a/neu dderbyniadau, yn ganolog neu ar lefel coleg/ysgol gael cyfarwyddyd i ymgyfarwyddo â'r cod ymarfer. |
| Beth yw’r goblygiadau eraill o ran adnoddau (yn cynnwys amser a baich gwaith) o weithredu’r polisi hwn? | Mae adnoddau ar-lein yn cael eu datblygu a byddant ar gael yn www.bangor.ac.uk |

| **ARGYMHELLION A DYDDIAD ADOLYGU** | |
|---|---|
| Bob blwyddyn - Adolygiad nesaf mis Mai 2020 | |
| **ASESIAD EFFAITH – LLOFNOD A DYDDIAD** | |
|  Gaynor Mew | 30 Awst 2019 |